

# **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022 – 2023**

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

**Ebrill 2023**

This document is also available in English.

## **Cynnwys**

<b>1.0</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2.0</b>	<b>Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad</b>	<b>4</b>
<b>3.0</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>5</b>
3.1	Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn	5
3.2	Edrych i'r Dyfodol	6
<b>4.0</b>	<b>Gwybodaeth am y flwyddyn 2022-2023</b>	<b>8</b>
4.1	Datblygiadau Digidol	8
4.2	Grŵp Llywio'r Gymraeg	8
4.3	Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir	8
4.4	Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2023	9
4.5	Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2022	9
4.6	Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2023	9
4.7	Eisteddfod yr Urdd – Clwb Youth Sheds Abergele	10
4.8	Diwrnod Dathlu'r Gymraeg	10
4.9	Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost	10
4.10	Logo Iaith Gwaith ar e-bost	10
4.11	Gwaith Cyfieithu	10
4.12	Cyfieithu ar y pryd	11
4.13	Gwersi Cymraeg	11
4.14	Fforwm y Dysgwyr	11
4.15	Nant Gwrtheyrn	12
4.16	Cynllun Sgwrsio	12
4.17	Gwasanaethau'r Cyngor	12
4.18	Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor	17
4.19	Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	19
4.20	Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd	20
<b>5.0.</b>	<b>Cadw Cofnodion</b>	<b>23</b>
5.1	Cwynion	23
<b>6.0</b>	<b>Casgliad</b>	<b>24</b>

## **1.0 Cyflwyniad**

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023, a'r gwaith a wnaed i'w diwallu.
- 1.2 Rydym yn hynod falch o'r lluo o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

## **2.0 Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad**

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, Cadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld [ar ein gwefan](#).

2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd bob dydd).

2.4 Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

2.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.

2.6 Er bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif o Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u Cynllun Iaith Gymraeg cynt, mae'r Safonau wedi darparu cyfle i atgyfnerthu'r gofynion i sicrhau cydymffurfiaeth.

2.7 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu yn deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

## **2.8 Atebolrwydd**

2.8.1 Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Yna, mae hi'n cael ei chyflwyno i aelodau'r Cabinet i'w chymeradwyo.

2.8.2 Ar ôl ei chymeradwyo, mae'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor ac ar ei wefan. Mae'r ddogfen hefyd yn cael ei chylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnwyd a'i dosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfeydd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod wrth drigolion Conwy amdani.

### 3.0 Crynodeb

#### 3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu fod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

- a) **Newyddlen y Gymraeg** – eleni am y tro cyntaf, cychwynnom newyddlen o'r enw "Dathlu'r Gymraeg yng Nghonwy". Bwriad y newyddlen yw dathlu'r Gymraeg yng Nghonwy a rhoi gwybodaeth i staff am bob math o bethau sydd ar y gweill. Daeth y rhifyn cyntaf allan ym mis Tachwedd pan roedd tîm pêl-droed Cymru yn chwarae yng Nghwpan y Byd felly roedd y newyddlen yn cynnwys geiriau a seineg yr anthem genedlaethol ac i 'Yma o Hyd' yn ogystal â geirfa a seineg pêl-droed. Roedd y newyddlen hefyd yn cynnwys gwybodaeth 'Band y Mis', tudalen Facebook 'Cymraeg i Bawb – Conwy', gwybodaeth am wersi Cymraeg sydd ar gael i staff a diweddariad ar waith y Gwasanaeth Cyfieithu. Roedd adran 'Cornel y Dysgwyr' i'r newyddlen, oedd yn dathlu llwyddiant aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg yn eu harholiadau ac roedd yna dudalen 'Deg difyr efo Dysgwr' lle roedd aelod staff sy'n dysgu Cymraeg yn ateb cyfres o gwestiynau am ei brofiad o ddysgu Cymraeg.
- b) **Penodi Cefnogwr Siaradwyr Cymraeg newydd** – Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu Cymraeg, fe wnaethom benderfynu penodi Cefnogwr Siaradwyr Cymraeg Newydd o blith y Cynghorwyr yn ddiweddar, mae hyn yn ychwanegol at y swyddogaeth Cefnogwr y Gymraeg sydd gennym ers blynyddoedd. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r swyddogaeth hon ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.
- c) **Fforwm y Dysgwyr** – Yn ddiweddar, rydym wedi ffurfio Fforwm y Dysgwyr - grŵp o tua 25 o ddysgwyr (staff a Chynghorwyr) o bob lefel sy'n cyfarfod gyda Rheolwr y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg er mwyn ein helpu i wybod pa fath o adnoddau/digwyddiadau fyddai'r dysgwyr yn eu hoffi, sut fedrwn ni eu helpu i ddatblygu ymhellach ac ati. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r dysgwyr i lunio rhaglen o ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymarfer ac ati yn ystod yr wythnosau nesaf.
- ch) **Gwaith Cyfieithu** – Dros y bedair blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Yn ystod 2022-2023, golygodd hyn ein bod wedi cyfieithu tua 500,000-700,000 o eiriau yn fwy nag arfer, sy'n hafal i fwy na gwaith 1 cyfieithydd llawn amser. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu'n fewnol ar gyfer staff.
- d) **Cyfieithu ar y pryd** – Ym mis Mai eleni, daeth bob cyfarfod cyhoeddus yn rhai hybrid ac mae pawb sy'n dymuno gwrandao ar y cyfieithiad yn medru gwneud hynny drwy ddefnyddio'r pensetiau arferol yn y siambr neu drwy Zoom ar-lein. Mae'r oriau yr ydym yn eu treulio mewn cyfarfodydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd hefyd wedi cynyddu yn ystod 2022-23 o 233 awr y llynedd i 261 awr eleni. Bu cynnydd yn y defnydd o Gymraeg gan Gynghorwyr a staff hefyd.

- dd) **Gwersi Cymraeg** – Mae ein gwersi Cymraeg wedi parhau i fynd o nerth i nerth eleni, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod 75 aelod o'n staff wedi gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y dysgwyr yn ffynnu yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw ddod i ben eu lefel bresennol o wersi Cymraeg.
- e) **Cynllun Sgwrsio** – Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Sgwrsio yn y Gwaith lle mae dysgwr ar lefel Canolradd yn cael ei baru gyda siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 20 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio.
- f) **Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg** – Cynhaliwyd 4 sesiwn i 120 o ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Aberconwy ym mis Mawrth eleni i roi gwybodaeth iddynt am ba mor bwysig ydi siarad Cymraeg ym myd gwaith. Gobeithiwn ddatblygu'r sesiynau hyn ar gyfer ysgolion eraill yn y dyfodol.
- ff) **Gwefan Addysg Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu [tudalen newydd sbon](#) ar wefan canolog y sir am addysg Gymraeg. Bwriad y dudalen ydi darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am addysg Gymraeg a'r manteision o fod yn ddwyieithog. Bwriadwn ychwanegu ati dros y flwyddyn nesaf hefyd i greu adran gyfan am addysg Gymraeg.
- g) **Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg** – y llynedd, cynhaliodd Gomisiynydd y Gymraeg archwiliad ar ein gwefan, a gwelwyd 3 achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, sef 3 dogfen uniaith Gymraeg / Saesneg nad oedd yn cynnwys brawddeg i nodi bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall hefyd, fel sy'n ofynnol yn unol â Safonau'r Gymraeg. Yn dilyn eu harchwiliad, fe gynhaliom archwiliad o'r wefan gyfan a dod o hyd i ddogfennau eraill lle oedd angen ychwanegu'r frawddeg hon. Rydym yn falch o adrodd ein bod bellach wedi ychwanegu'r frawddeg hon at bob dogfen a ffurflen bellach. Hefyd, o hyn ymlaen, ni fydd Tîm y We yn cyhoeddi unrhyw ddogfen na ffurflen os nad ydynt yn cynnwys y frawddeg hon er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn llwyr o hyn ymlaen.

## 3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg lluo o ddatblygiadau llai:

- a) **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg** – Bydd ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei diweddarau dros y misoedd nesaf. Bwriad y Strategaeth yw hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yng Nghonwy.
- b) **Tabl Sgiliau Cymraeg** – Byddwn yn datblygu ein Tabl Sgiliau Cymraeg er mwyn rhoi ychydig mwy o eglurder i'r gwahanol lefelau a sicrhau bod staff a Chynghorwyr yn dewis y lefel sy'n cyfleu eu gallu nhw. Bydd hyn yn hynod fuddiol yn y broses recriwtio gan ein bod yn gobeithio, drwy ddarparu rhagor o eglurder, y byddwn yn medru denu mwy o siaradwyr Cymraeg i swyddi ac y bydd yn fwy amlwg pa sgiliau Cymraeg fydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi.
- c) **Gwersi Cymraeg** – Ym mis Mai, rydym yn bwriadu ychwanegu at ein darpariaeth bresennol drwy gynnig cyfleoedd i hyd yn oed fwy o staff y Cyngor ddysgu Cymraeg gan ychwanegu ac ehangu ein darpariaeth bresennol. Edrychwn ymlaen at weld eu llwyddiannau nhw y flwyddyn nesaf.

- ch) **Fforwm Dysgwyr** – rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r fforwm, a'r syniadau, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n deillio ohono dros y flwyddyn nesaf.
- d) **Cynllun Cefnogi Dysgwyr** – rydym yn bwriadu datblygu ein trefniadau ar gyfer dysgwyr ymhellach fyth y flwyddyn nesaf a bydd calendr o'r digwyddiadau ar gael.
- dd) **Gweithgareddau yn y Gymuned** – Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn gobeithio'n arw iawn y cawn fynd allan i'r cymunedau i gynnal gweithgareddau ac i weithio ymhellach â'r cyhoedd drwy gydweithio gyda'n partneriaid.
- e) **Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg** – Byddwn yn cynnig sesiynau mewn gwahanol ysgolion y flwyddyn nesaf i roi gwybodaeth iddynt am ba mor bwysig ydi siarad Cymraeg ym myd gwaith.
- f) **Gair yr wythnos** – Mae cynlluniau ar y gweill i ddechrau rhannu 'Gair yr wythnos' drwy ein sianel Teams ar gyfer holl weithwyr y Cyngor.

## **4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2022-2023**

### **4.1 Datblygiadau digidol**

4.1.1 **Tudalen Facebook** – Mae gennym dudalen Facebook o'r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg o fewn y sir. Mae'r dudalen yn postio'n rheolaidd bob wythnos, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan fudiadau eraill megis Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith, Yr Urdd a llawer mwy.

4.1.2 **Sianel Dysgu Cymraeg ar Teams** – Mae gennym sianel ar Microsoft Teams o'r enw 'Dysgu Cymraeg'. Mae'r sianel ar gyfer staff y Cyngor sy'n mynychu gwersi Cymraeg mewnol y Cyngor. Caiff y dudalen ei rheoli gan y tiwtor Cymraeg ond mae gan Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg hefyd fynediad at y sianel er mwyn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg gyda'r dysgwyr, e.e Band y Mis, gwybodaeth am gyfleoedd i ymarfer Cymraeg yn y gwaith a thu hwnt ac ati.

4.1.3 **Gwefan Addysg Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu gwefan addysg Gymraeg newydd sbon ar wefan canolog y sir. Bwriad y dudalen ydi darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am addysg Gymraeg a'r manteision o fod yn ddwyieithog.

### **4.2 Grŵp Llywio'r Gymraeg**

4.2.1 Grŵp mewnol ydi'r grŵp, a'i fwriad penodol ydi ystyried a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor, boed yn faterion o arferion da i'w dathlu a'u datblygu, neu unrhyw fater sy'n codi sy'n is na'r safon rydym ni'n anelu ati, yn faterion lle mae angen gwelliant gyda gwasanaeth penodol / agwedd benodol o'n gwaith ac ati.

4.2.2 Mae'r Grŵp wedi parhau i fynd o nerth i nerth a chafwyd sawl trafodaeth ddifyr yn cefnogi, ac yn herio, gwasanaethau'r Cyngor. Mae gan y grŵp raglen waith a champau gweithredu sy'n deillio o'r grŵp, ac mae'n fodd o ddatblygu'r iaith Gymraeg yn fewnol yn y Cyngor, a chodi proffil yr iaith yn allanol yn ein cymunedau hefyd. Bu cyfieithydd ar y pryd yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r grŵp.

4.2.3 Wrth sefydlu'r Grŵp, roedd ei aelodaeth yn agored i unrhyw Gynghorydd sydd â diddordeb ym maes y Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth wleidyddol ar y Grŵp, cynigiwyd lle i un Cynghorydd o bob grŵp, os dymunant hynny. Newidiodd yr aelodaeth rhywfaint yn dilyn etholiadau Mai 2022. Manteisiodd sawl plaid/grŵp ar y cynnig a chafwyd enwebiadau unigol hefyd. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys swyddogion sydd â diddordeb yn y Gymraeg, dysgu Cymraeg ac ati. Pencampwr y Gymraeg sy'n cadeirio pob cyfarfod.

### **4.3 Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir**

4.3.1 Mae'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn parhau i gysylltu'n rheolaidd gyda'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o'r gwaith isod.



#### 4.4 Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2023

4.4.1 Ar 10 Chwefror eleni, roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y diwrnod, penderfynwyd creu rhestr chwarae fer gyda 6 cân Gymraeg i'r ysgolion ei rhannu gyda'r disgyblion a gofyn i'r disgyblion bleidleisio am eu hoff gân. Y bwriad oedd hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru a'i gwneud hi ychydig yn haws i staff ysgolion drwy ddewis y caneuon drostynt. Cafodd y caneuon a dolen i'r holiadur eu gosod ar boster a'u rhannu gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd dros e-bost. Cafwyd 232 ymateb i'r holiadur, 145 (64.7%) yn ateb fel unigolion, 66 (29.5%) yn ateb fel dosbarth ac 13 (5.8%) yn ateb fel ysgol. Mae hyn yn golygu bod miloedd o blant a phobl ifanc ar draws y sir wedi cymryd rhan yn nathliadau Dydd Miwsig Cymru eleni. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr athrawon ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r rhestr chwarae yn fawr. Braff hefyd oedd gweld ysgolion yn cymryd rhan wnaeth ddim cymryd rhan y llynedd. Cafwyd sylwadau gwych gan rai o'r disgyblion hefyd.

4.4.2 Rhannwyd y rhestr chwarae gyda dosbarthiadau dysgu Cymraeg mewnol y Cyngor hefyd. Cafodd y rhestr chwarae ei rhannu gyda'r dysgwyr drwy diwtor mewnol y Cyngor ac hefyd drwy'r sianel 'Dysgu Cymraeg' ar Teams.

#### 4.5 Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2022

4.5.1 Diwrnod hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yng Nghymru yw Diwrnod Shw Mae Su' Mae. Mae Diwrnod Shw Mae Su' Mae yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar 15 Hydref, oedd ar ddydd Sadwrn eleni. Rhannwyd neges ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor yn annog pobl i gychwyn sgwrs yn Gymraeg gyda chopi o bosteri 'Say it in Cymraeg' y Mentrau Iaith oedd yn cynnwys geirfa Cymraeg i ddefnyddio yn y swyddfa, y caffi, y dafarn, y siop ac mewn cyfarfod.

#### 4.6 Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2023

4.6.1 Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni cynhaliwyd cystadleuaeth celf a chreffft a chystadleuaeth barddoniaeth a ffotograffiaeth i blant ysgolion cynradd Conwy. Briff y gystadleuaeth celf a chreffft oedd creu darn o gelf 2 neu 3-d dim mwy na maint A4 ar y thema 'Y Gwanwyn'. Roedd y gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion meithrin hyd at flwyddyn 4, ac roedd 2 gategori sef meithrin-flwyddyn 2 a blwyddyn 3-4. Briff y gystadleuaeth barddoniaeth a ffotograffiaeth oedd tynnu llun o'ch milltir sgwâr ac yna ysgrifennu cerdd i gyd-fynd â'r llun. Roedd y gystadleuaeth yn agored i flynyddoedd 5 a 6 ac roedd 2 gategori i'r gystadleuaeth yma hefyd, ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg. Hysbysebwyd y 2 gystadleuaeth drwy neges e-bost at yr ysgolion i'w hanfon ymlaen at rieni. Cafwyd ymateb da i'r 2 gystadleuaeth gyda phlant o 6 ysgol wahanol yn cymryd rhan.

4.6.2 Cynhaliodd y Dysgwyr Cymraeg sesiwn Panad a Sgwrs yn yr Ystafell Ddosbarth ym Modlondeb ar 1 Mawrth 2023. Daeth tua 50 o staff a Chynghorwyr i'r digwyddiad. Roedd hi'n wych gweld bod y dysgwyr i gyd wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Dyma oedd gan ein Cefnogwr y Gymraeg i'w ddweud am y digwyddiad:

*"Ddydd Gwyl Dewi, roedd yn ffrainc cael mynychu sesiwn paned a sgwrs a drefnwyd ar gyfer y siaradwyr Cymraeg newydd. Dim ond ers yn gymharol ddiweddar oedd rhai wedi dechrau dysgu; roedd eraill wedi bod yn dysgu ers dipyn mwy o amser ac wedi cyrraedd Lefel 3. Roedd yn destun balchder fod y dysgwyr newydd yn hyderus i fentro a'r gweddill wedi datblygu rhuglder ac yn medru cynnal sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ac erbyn hyn yn medru darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Llongyfarchiadau i'r dysgwyr a'u tiwtor."*

## **4.7 Eisteddfod yr Urdd – Clwb Youth Sheds Abergele**

4.7.1 Gan fod Eisteddfod yr Urdd yn sir Ddinbych eleni a bod tocynnau am ddim trefnwyd i 30 o bobl ifanc clwb Youth Sheds Abergele fynychu am y diwrnod. Doedd y bobl ifanc heb fod i'r Eisteddfod o'r blaen ac mi roedden nhw wir wedi mwynhau'r diwrnod a'r cyfle. Wrth i staff holi am adborth ar ôl y diwrnod dywedodd sawl un ei bod nhw wedi mwynhau clywed gymaint o Gymraeg a'u bod nhw wedi cael hwyl.

## **4.8 Diwrnod Dathlu'r Gymraeg**

4.8.1 Ddydd Gwener 25 Tachwedd mi roedd hi'n ddiwrnod cyffrous wrth i Gymru chwarae eu hail gêm yng Nghwpan y Byd yn erbyn Iran am 10am. Er mwyn dathlu hynny, trefnwyd 'Diwrnod Dathlu'r Gymraeg / Gwisgo Coch'. Gofynnwyd i staff y Cyngor wisgo coch i'r gwaith y diwrnod hwnnw er mwyn dangos eu cefnogaeth i'r tîm ac anogwyd pawb i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Rhannwyd posteri geirfa a seineg pêl-droed, 'Cymraeg mewn cyfarfodydd' a 'Cymraeg yn y swyddfa' i'r holl staff drwy sianel Teams y Cyngor.

## **4.9 Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost**

4.9.1 Bu'r teclyn hwn ar waith ers dros bum blynedd bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Iaith wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud: "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh".

4.9.2 Mae'r teclyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau iaith y staff yr ydych yn cysylltu â nhw.

## **4.10 Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost**

4.10.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

4.10.2 Yn unol â'r Safonau, mae gennym frawddeg ar waelod pob neges e-bost ers cychwyn y Safonau yn nodi na fydd derbyn negeseuon yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi wrth ymateb i'r neges. Sylweddolwyd drwy ymarferion siopwyr cudd nad oedd y frawddeg hon ar bob un cyfrif o eiddo'r Cyngor, felly drwy weithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bellach mae'r neges honno'n rhan awtomatig o bob neges sy'n gadael pob un o gyfrifon e-bost y Cyngor gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safon honno bob amser bellach.

## **4.11 Gwaith Cyfieithu**

4.11.1 Dros y bedair blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu'n fewnol ar gyfer staff.

## 4.12 Cyfieithu ar y pryd

4.12.1 Ym mis Mai eleni, datblygom ein darpariaeth cyfieithu ar y pryd ymhellach wrth i'n cyfarfodydd cyhoeddus droi'n rhai hybrid sy'n golygu bellach bod mynychwyr ein cyfarfodydd cyhoeddus yn medru bod yn y Siambr ym Modlondeb neu ar-lein yn ystod pob cyfarfod, ac mae'r rhai sy'n dymuno gwrandao ar y cyfieithiad yn medru gwneud hynny drwy'r pensetiau arferol yn y siambr neu drwy Zoom ar-lein.

## 4.13 Gwersi Cymraeg

4.13.1 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhaglen benodol i gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru yw Cymraeg Gwaith ac mae'n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr.

4.13.2 Bu'r gwersi i gyd yn gyfan gwbl ar-lein rhwng ddiwedd mis Mawrth 2020 a diwedd mis Gorffennaf 2022. Rydym yn hynod o falch bod y gwersi'n rhannol yn ôl yn yr ystafell ddosbarth bwrpasol bellach, gyda phob dosbarth yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb ac ar-lein bob yn ail wythnos.

4.13.3 Mae'n braf iawn medru adrodd bod 75 o staff a Chynghorwyr y Cyngor yn rhan o'r cynllun eleni. Cynhaliwyd 6 chws o dan arweiniad tiwtor ar lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd rhwng mis Ebrill 2022 a Mawrth 2023, a bu dros 35 aelod o staff yn mynychu'r cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd 3 chws hunan-astudio ar lefel Mynediad 1 a 2, ac ar lefel Sylfaen 1, gyda 39 (o'r 75) o ddysgwyr yn cofrestru a gyfer y cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn.

4.13.4 Mae'r Cynllun Cymraeg Gwaith yn mynd o nerth i nerth pob blwyddyn. Mae'n brawf o'r bartneriaeth wych rhwng y Cyngor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac oherwydd hyn, y gwahaniaeth gweithredol mae'r cynllun yn ei wneud. Rydym yn gweld effaith y cynllun ym mywyd gwaith pob dydd gyda defnydd o'r Gymraeg yn weledol iawn – bu hynny yn y swyddfa, mewn cyfarfodydd, pwyllgorau neu hyd yn oed mewn cyfweiliadau ar y cyfryngau! Rydym hefyd yn hynod ffodus o gael Tiwtor Cymraeg sy'n dod â'r iaith yn fyw i'r staff sydd yn cymryd rhan yn y prosiect. Ni fyddai hyn yn bosib heb y buddsoddiad enfawr gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac rydym yn hynod ddiolchgar a gwerthfawrogl o hyn.

4.13.5 Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan, a'r diddordeb yn y diwylliant Cymraeg yn wir llenwi rhywun gyda balchder. Beth sy'n hynod galonogol flwyddyn yma, yw'r diddordeb gan Gynghorwyr mewn bod yn rhan o'r cynllun. Mae cynnydd sylweddol mewn Cynghorwyr newydd wedi cychwyn ar y daith gyda ni. Mae hyn eto yn gam mawr tuag at dwyieithrwydd o fewn y Cyngor ar bob lefel.

## 4.14 Fforwm y Dysgwyr

4.14.1 Yn ddiweddar, rydym wedi ffurfio Fforwm y Dysgwyr - grŵp o tua 25 o ddysgwyr (staff a Chynghorwyr) o bob lefel sy'n cyfarfod gyda Rheolwr y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg er mwyn ein helpu i wybod pa fath o adnoddau/digwyddiadau fyddai'r dysgwyr yn eu hoffi, sut fedrwn ni eu helpu i ddatblygu ymhellach ac ati. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r dysgwyr i lunio rhaglen o ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymarfer ac ati yn ystod yr wythnosau nesaf.

## **4.15 Nant Gwrtheyrn**

4.15.1 Ym mis Mawrth eleni, bu criw o siaradwyr Cymraeg rhugl y Cyngor i Nant Gwrtheyrn ar gwrs Gloywi laith. Fe wnaethant i gyd fwynhau'r profiad yn arw.

## **4.16 Cynllun Sgwrsio**

4.16.1 Mae manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer Cymraeg yn holl bwysig er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith. Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Sgwrsio yn y Gwaith lle mae dysgwr ar lefel Canolradd yn cael ei baru gyda siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 20 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio. Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y dysgwyr yn ffynnu yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw ddod i ben eu lefel bresennol o wersi Cymraeg.

## **4.17 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor**

### **4.17.1 Prif dderbynfa**

4.17.1.1 Lleolir prif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r prif dderbynfa/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 9 aelod o staff (100%) yn siarad Cymraeg.

### **4.17.2 Venue Cymru & Theatr Colwyn**

- a) Fe wnaethom fwynhau Pantomeim Cyw S4C yn yr Arena ar ddiwedd 2022. Cafodd y sioe ei ffrydio'n fyw i ysgolion yng Ngogledd Cymru.
- b) Yn ystod Cymryd Rhan, cawsom fwynhau sioeau Cyw yn fyw yn y Theatr (x3) gyda gweithdai eraill dros y penwythnos fel Camau Cerdd, Gweithdai Ciemera (Sgiliau Syrcas), Dawns y Glöcsen, Gweithdai Rownd a Rownd, Mudiad Meithrin, a Gweithdai Archaeloeg.

### **4.17.3 Llyfrgelloedd**

#### **a) Archifau a Llyfrgell Conwy, Canolfan Ddiwylliant**

- Rydym yn falch fel gwasanaeth Llyfrgell i wario canran uchel o'n cronfa adnoddau ar ddeunyddiau yn y Gymraeg, yn ddeunyddiau fel llyfrau, llyfrau llafar, print bras, ynghyd â gemau ac adnoddau digidol.
- Cynhaliodd y Gwasanaeth Archifau eu digwyddiad uniaith Gymraeg cyntaf yn ddiweddar. Daeth criw o Ferched y Wawr lleol draw ar gyfer sesiwn gyflwyno'r gwasanaeth archifau, gyda phwyslais ar gofnodion Merched y Wawr a thaith o amgylch yr Archifdy. Cafodd yr un grŵp sesiwn ar sut i ddefnyddio apiau Borrowbox a Libby, ein hadnoddau digidol e-lyfrau ac e-lyfrau llafar hefyd. Roedd y grŵp yn ddiolchgar iawn ac maen nhw eisoes wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth i wrando ar lyfrau. Roeddent hefyd yn hapus i weld y casgliad cynyddol o deitlau Cymraeg digidol sydd ar gael.

## **b) Gweithio gyda phlant**

- Bob wythnos, rydym yn cynnal amser stori i'r plant o dan 5 oed, a sesiynau celf a chrefft dwyieithog yn rheolaidd ynghyd â chynnig Snac a Stori dros wyliau'r haf.

## **c) Abergele**

- Daeth disgyblion o Ysgol Glan Morfa atom i ymweld â ni. Ers hynny, mae'r plant wedi dod draw yn gyson i ymuno â'r llyfrgell neu ddod i fenthyg llyfrau. Roedd plant Ysgol Glan Gele wedi gwirioni'n lân o weld llyfrau Mari Lovgreen yn y llyfrgell wrth ymweld â ni. Cynhaliodd Mari sesiwn ar-lein gyda'r ysgol hefyd.
- Mae Meithrinfa o ardal Llanddulas/Llysfaen yn mynychu'r amser stori dwyieithog sy'n cael ei gynnal yn wythnosol gan staff y llyfrgell.

## **ch) Bae Colwyn**

- Bellach mae gennym sesiynau stori ddwyieithog rheolaidd yn y Ganolfan Deuluoedd lleol.

## **d) Conwy** (mewn partneriaeth â Phrosiect Haf o Hwyl a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, digwyddiadau yn cael eu rhaglennu gan Yr Asiantaeth Ddarllen)

- Daeth plant oedd ar gynllun haf at ei gilydd gyda Casi Wyn yn y Ganolfan Ddiwylliant i ysgrifennu cerddi. Roedd nifer o'r plant a'u rhieni/gofalwyr wedi cyfleu eu diolch am sesiwn ysbrydoledig i'r plant a phobl ifanc - diolch Casi.

## **dd) Llanrwst** (mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy, Arfordir Gogledd Orllewin Cymru).

- Dathlwyd Diwrnod y Llyfr yn Llyfrgell Glasdir Llanrwst gyda'r storiwr Chris Baglin wrth iddo adrodd a pherfformio nifer o storïau a chwedlau Cymreig gyda blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Bro Gwydir.

## **e) Llandudno**

- Ar ddiwrnod y llyfr aeth y llyfrgell i ymweld ag Ysgol Morfa Rhianedd i gyflwyno 4 sesiwn i'r disgyblion a darllen storïau a gwneud gweithgareddau yn ymwneud â llyfrau gyda nhw.

## **f) Gweithgareddau ac Adnoddau ar gyfer dysgwyr**

- Mae'r llyfrgelloedd yn gadarnle ar gyfer ymarfer Cymraeg ymysg staff a chwsmeriaid. Mae nifer o ddatblygiadau ychwanegol eleni, ynghyd â phrynu Lingo ar gyfer pob llyfrgell ardal:

## **a) Abergele**

- Mae nifer o oedolion yn dod i'r sesiynau Ffrindiau Darllen i ddysgwyr Cymraeg yn gyson a rhai newydd yn mynychu o bryd i'w gilydd. Cawsom adborth bod y sesiynau yn eu helpu gyda'r Gymraeg ac mae ganddynt ddi-ddordeb yn yr adnoddau sydd gennym yma i'w helpu a'r gwahanol fathau. Er enghraifft roedd nifer wedi dangos diddordeb mewn benthyg llyfr llafar Cymraeg (hyd yn oed rhai plant) er mwyn medru gwrandao ar y Gymraeg.

## b) Llanrwst

- Sefydlwyd Cylch Darllen i ddysgwyr (i ddathlu Gŵyl Ddewi) wnaeth ddeillio o wersi Cymraeg Prifysgol Cymru Bangor. Maent am ddarllen drwy'r gyfres 'Amdani'.

## c) Bae Colwyn

- Cynhelir sesiwn Panad a Sgwrs yn wythnosol i gefnogi'n cwsmeriaid sy'n dysgu Cymraeg ac mae gennym ran pwrpasol ar gyfer casgliadau i ddysgwyr yn y llyfrgell.

## ch) Llandudno

- Mae'n sesiynau Panad a Sgwrs wythnosol wedi mynd o nerth i nerth. Cynhelir sesiynau gyda themâu gwahanol, a cheir trafodaeth a gwybodaeth am y pwnc dan sylw e.e. Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Defnyddir llawer o ffynonellau adnoddau sy'n addas e.e. llyfrau yn benodol ar gyfer dysgwyr, cylchgrawn Lingo, gwefannau.

## 4.17.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

4.17.4.1 Cawsom flwyddyn gyffrous iawn o ran y Gymraeg mewn Addysg – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

### 4.17.4.2 Diweddariadau 2022-2023:

- Cynnal trafodaethau efo rhanddeiliaid allweddol i gynllunio cynllun gweithredu CSGA Conwy 2022-27
- Cyflwyniadau i ddiweddarau aelodau Cabinet a Phwyllgor Craffu Addysg a Sgiliau
- Cyflwyniadau ar gynnydd i ESTYN
- Cyfrannu at drafodaethau cenedlaethol efo Llywodraeth Cymru (LIC) fel bo'r galw
- Cydlynnydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn cynrychioli'r awdurdod ar:
  - bwyllgor cenedlaethol LIC ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth y Gymraeg
  - pwyllgor gwaith CYDAG cynradd
  - Fforwm Iaith Conwy
  - cyfarfodydd consortia fel bo'r angen
- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Chanolfan Iaith Conwy ar rwydwaith cenedlaethol addysg drochi
- Diweddarau gwefan cyhoeddus Conwy a holl benaethiaid ysgolion y sir gyda gwybodaeth am y Gymraeg mewn Addysg yn Sir Conwy yn barhaus
- Dosbarthu gwybodaeth i bob lleoliad gofal plant i'w rhannu gyda rhieni – llyfryn marchnata Menter Iaith '*Addysg Gymraeg - y gorau o ddau fyd*'
- Sefydlu rhaglen Camfa Croesi'r Bont yn rhan o raglen plethu Mudiad Meithrin a Blynnyddoedd Cynnar Cymru - Llanfairfechan
- Cydweithio ar raglen gefnogaeth bwrpasol i ysgolion penodol - Tîm Cefnogi Cyn ysgol, Mudiad Meithrin, Tîm Ymgynghorol Cymraeg mewn Addysg a Menter Iaith o ran hyfforddiant, ymweliadau arfer da, gwersi enghreifftiol, addysgeg trochi, gweithgareddau Menter Iaith
- Grant Trochi hwyr LIC:
  - Conwy - Cefnogaeth addysgeg Trochi o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan gynnwys staff addysgu newydd gymhwyso
  - Dyffryn Conwy – cefnogaeth trochi i ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol a chefnogi disgyblion sy'n hwyrdyfyddiaid i addysg uwchradd
  - Creuddyn – cynyddu darpariaeth Cynllun Trochi a hyrwyddo manteision addysg drochi gyda theuluoedd sy'n awyddus i ddilyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg

- Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn rhwydweithio'n effeithiol efo ysgolion Gwynedd
- Ymwybyddiaeth manteision y Gymraeg yn y byd gwaith trwy gyd-weithio â rhanddeiliaid allweddol e.e. Coleg Llandrillo, Gyrfa Cymru
- Siarter Iaith a chynllun Cymraeg Campus wedi parhau yn holl ysgolion cynradd y sir.
- Ysgol Uwchradd Aberconwy yn peilota Cymraeg Campus yn yr uwchradd ac yn rhan o astudiaeth achos y consortia
- Ymweliadau arfer da ysgolion cynradd Conwy efo ysgol gynradd yn Sir Y Fflint sydd wedi derbyn gwobr aur Cymraeg Campus
- Ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio wedi derbyn cyllid i gyd-weithio ar brosiectau i gefnogi'r defnydd anffurfiol ac i ddatblygu'r gweithlu o fewn clystyrau:
  - Prosiectau Den y Dreigiau ar waith ac yn dwyn ffrwyth yn yr ysgolion.
  - Targedu agweddau o fewn Cymraeg Campus a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
  - cynllunio'r iaith yn drawsgwricwlaidd, datblygu hyfedredd ieithyddol y gweithlu,
  - adnoddau i gefnogi datblygiad y Gymraeg
- Hyfforddiant i'r gweithlu cynradd ar addysgeg yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru – iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Cynllun Sabothol i ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg y gweithlu

#### 4.17.5 Diweddariadau am Creu Conwy 2021-2026

- a) Fe wnaeth ein prosiect y Gymraeg a Chroesawu Ymwelwyr, ymgynghori â mwy nag 80 o fusnesau a 200 o bobl i nodi blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cynnig busnes. Rydym bellach yn ymgeisio am nawdd dan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Cyngor y Celfyddydau ac eraill i gyflawni'r gwaith hwn.
- b) Fe wnaethom lunio pecyn y Gymraeg a Chroesawu Ymwelwyr ar gyfer busnesau yn seiliedig ar yr hyn y gwnaethom ei ddysgu o'n Gwaith Arolwg, sydd am ddim i bob busnes ac unigolyn.
- c) Rydym wedi dod o hyd i 'Becynnau Sgwrsio' ar Creu Conwy gyda staff CBSC i hyrwyddo pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth ddatblygu eu gwaith prosiect.
- ch) Fe wnaethom ddarparu gŵyl gerddorol 'Gigs y Gaeaf' oedd yn gweithio gydag artistiaid Cymraeg a dwyieithog i ddarparu perfformiadau ledled y sir, gan ddod ag artistiaid Cymraeg i leoliadau newydd a darparu 7 gig arbennig lle roedd y tocynnau wedi gwerthu i gyd ac 17 perfformiad llai.
- d) Fe wnaethom ddarparu cyfres o ddigwyddiadau Diwylliannol ym mhob un o'n llyfrgelloedd fel rhan o flwyddyn gyntaf Creu Conwy o ddarparu'r rhaglen Drysau Agored sy'n dathlu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
- dd) Fe gynhaliom brosiect gyda Jwls Williams a'n Gwasanaeth Ieuenctid fel rhan o weithgareddau'r Urdd i archwilio barn pobl ifanc am y Gymraeg, y diwylliant Cymreig a'n hunaniaeth a'u gobeithion ar gyfer Conwy yn y dyfodol.
- e) Mae prosiect Venue Cymru gyda nawdd gan Gyngor y Celfyddydau, Dim byd amdanom ni hebom ni, wedi'n galluogi ni i weithio gyda Menter Iaith Conwy a Chyngor Hil Cymru i ddeall yr hyn y mae cymunedau eisiau o'u theatr a'u canolfannau celfyddydau.

- f) Cydnabu ein gwaith o ran hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg drwy ein Strategaeth Ddiwylliant gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu rhestr o Ysgogwyr Newid 100.
- ff) Wrth weithio gydag arweinwyr Creu Conwy Ifanc, rydym wedi cynyddu faint o weithgareddau dwyieithog yr ydym ni'n eu cynnal ac wedi gofyn iddynt weithio yn ddwyieithog er mwyn annog pobl ifanc i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn eu gweithgareddau creadigol. Yn 2022/2023 cynhaliom 82 sesiwn ddwyieithog gyda'n hymarferwyr creadigol. Roedd hyn yn cynnwys – Brahms i Fabanod, Cylch Stori, Chwarae a Darganfod, Amser Stori yn yr Archifdy a phrosiect Gwobr y Celfyddydau.

#### 4.17.6 Mwy na Geiriau

- a) Fframwaith Strategol y Llywodraeth ydi cynllun 5 mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027 i gryfhau darpariaeth Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.
- b) Mae'r cynllun yn seiliedig ar y themâu a ganlyn:
  - Diwylliant ac arweinyddiaeth
  - Cynllunio a pholisïau'r Gymraeg
  - Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithle
  - Rhannu arfer gorau a datblygu
- c) Sefydlodd Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy Grŵp Llywio Mwy Na Geiriau ym mis Rhagfyr 2022. Amcanion y grŵp yw:
  - Galluogi diwylliant iach o berthyn ar gyfer y Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
  - Gweithredu tystiolaeth ar gyfer Cynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027.
- ch) Mae'r Grŵp Llywio'n dymuno meddu ar ddull gweithredu cyfannol a brwdfrydig tuag at y Gymraeg a Mwy na Geiriau. Rydym wedi sefydlu fersiwn ddrafft o'r cynllun gweithredu a bydd y grŵp yn cynnal gweithdai ymgynghori i fudd-ddeiliaid gael y cyfle i gyfrannu tuag at y cynllun gweithredu.



## 4.18 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor

4.18.1 Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae bob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt â mynediad i'r fewnwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy'n gweithio i awdurdodau eraill, mae'r awdurdod yn cyflogi 1,841 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau Cymraeg y 1,841 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg:

### Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor:

Gwrando / Siarad		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	434	24
Lefel 1	583	32
Lefel 2	210	11
Lefel 3	127	7
Lefel 4	173	9
Lefel 5	314	17
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,841</b>	

Darllen / Deall		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	477	26
Lefel 1	554	30
Lefel 2	198	11
Lefel 3	127	7
Lefel 4	180	10
Lefel 5	305	16
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,841</b>	

Ysgrifennu		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	591	32
Lefel 1	504	27
Lefel 2	225	12
Lefel 3	126	7
Lefel 4	139	8
Lefel 5	256	14
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,841</b>	

4.18.2 Mae staff y Cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnwyd i nodi eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir ym Mholisi'r Gymraeg.

4.18.3 O'r tabl uchod, gwelir bod 26% wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5) eleni.

4.18.4 Mae nifer y staff sy'n meddu ar ychydig o sgiliau Cymraeg (Lefel 1) wedi cynyddu eto eleni), o 30% y llynedd i 32% eleni, cynnydd o 2% unwaith yn rhagor. Bellach mae 50% o staff, sydd ddim yn rhugl, yn meddu ar sgiliau Cymraeg i ryw raddau. Mae llawer o'r rheiny oherwydd y cyrsiau Cymraeg i ddysgu / gwella eu sgiliau y bu staff yn eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

4.18.5 Gellir gweld y dadansoddiad o sgiliau Cymraeg y Penaethiaid Gwasanaeth fesul gwasanaeth isod.

### Sgiliau Cymraeg Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor:

Gwasanaeth	Cyfanswm y staff	Nifer sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)	Canran sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)	Nifer sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)	Canran sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)	Nifer sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)	Canran y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)
<b>Penaethiaid Gwasanaeth</b>	12	7	58%	5	42%	0	0

4.18.6 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth ar y dudalen nesaf.

**Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth:**

<b>Gwasanaeth</b>	<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)</b>	<b>Canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)</b>	<b>Newid canran o 2021-22?</b>	<b>Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)</b>	<b>Canran y staff sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)</b>	<b>Newid canran o 2021-22?</b>	<b>Nifer y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)</b>	<b>Canran y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)</b>
Adran y Prif Weithredwr	5	2	40%	+23%	3	60%	-23%	0	0%
Addysg	174	62	36%	-13%	76	44%	+4%	36	20%
Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	229	44	19%	-3%	125	55%	Dim newid	60	26%
Archwilio Mewnol	13	2	15%	+7%	8	62%	-15%	3	23%
Economi a Diwylliant	312	90	29%	-5%	151	48%	-4%	71	23%
Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol	42	8	19%	-3%	27	64%	+8%	7	17%
Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion	502	118	24%	-2%	242	48%	+1%	142	28%
Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant	195	48	25%	+1%	77	39%	-2%	70	36%
Pobl a Pherfformiad (Adnoddau Dynol a Gwelliant Corfforaethol cynt)	32	6	19%	+4%	26	81%	+21%	0	0%
Refeniw a Budd-daliadau	62	18	29%	Dim newid	33	53%	Dim newid	11	18%
Rheoleiddio a Thai	145	29	20%	-3%	93	64%	+9%	23	16%
Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol	69	13	19%	-6%	45	65%	+7%	11	16%
Y Gyfraith a Llywodraethu	61	47	77%	-2%	14	23%	+5%	0	0%
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,841</b>	<b>487</b>	<b>26%</b>		<b>920</b>	<b>50%</b>		<b>434</b>	<b>24%</b>

**4.18.6** Mae'n wych medru adrodd bellach bod 3 gwasanaeth heb unrhyw aelod o staff ar lefel 0, h.y. nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl, a bod 4 gwasanaeth arall â nifer fechan o staff ar yr un lefel. Byddwn yn targedu'r aelodau hynny o staff ar lefel 0 y flwyddyn nesaf, yn enwedig oherwydd bod rhai aelodau o staff yn tansgorio eu sgiliau Cymraeg wrth gynnal eu hunan-asesiad.

#### **4.19 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn**

- 4.19.1 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan y Cyngor yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i'r sawl sy'n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae'r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly'n benodol i'r swydd sy'n cael ei hysbysebu.
- 4.19.2 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu yn cael ei hanfon at y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu er mwyn dod i benderfyniad a ddylid hysbysebu'r swydd fel un lle bo sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd neu lle bo sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae sawl agwedd ar y swydd yn cael ei hystyried fel dyletswyddau'r swydd ynghyd â faint o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y tîm dan sylw.
- 4.19.3 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

<b>Dynodiad</b>	<b>Nifer a % fesul categori iaith</b>	<b>Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg</b>
Hanfodol	143 swydd (28%)	O'r 133 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i bob un ohonynt (100%).  Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 10 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
Dymunol	372 swydd (72%)	O'r 354 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 223 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (63%).  Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 18 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
<b>CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD</b>	515 swydd	Felly, o'r 487 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 356 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 73%.

**4.20 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o Gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2022-2023.

#### 4.20.1 Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle

Lefel y Cwrs	Math o gwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Mynediad 1	Hunan-astudio	Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Cwrs rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Roedd y dosbarthiadau yn gyfan gwbl ar-lein tan fis Gorffennaf 2022.	Dewis personol y staff	25
Mynediad 1	Cyfunol				7
Mynediad 2	Hunan-astudio				6
Sylfaen 1 a 2	Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth)				10
Sylfaen 1	Hunan-astudio				7
Canolradd 1	Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth)				8
Canolradd 1 a 2	Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth)				5
Uwch 1	Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth)				7
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS</b>					<b>75</b>

#### 4.20.2 Arholiadau Defnyddio'r Gymraeg – CBAC

Arholiad	Manylion	Cyfanswm wnaeth sefyll yr arholiadau	Cyfanswm wnaeth lwyddo yn yr arholiadau
Mynediad	Mae arholiadau 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC yn asesu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad y rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg, gyda 60% o'r marciau ym mhob arholiad yn cael eu rhoi am y profion siarad. Cynigir arholiadau lefel Sylfaen, Canolradd ac Uwch ym mis Mehefin bob blwyddyn, ac arholiad lefel Mynediad ym mis Mehefin ac ym mis Ionawr bob blwyddyn.	9	9
Sylfaen		4	4
Canolradd		2	2
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH LWYDDO YN YR ARHOLIADAU</b>			<b>15</b>

#### 4.20.3 Cyrsiâu Gloywi Iaith

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
6-10 Mawrth 2023	Unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sydd eisiau gwella eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig	Cwrs Gloywi Iaith am wythnos yn Nant Gwrtheyrn	Dewis personol y staff	5
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS</b>				<b>5</b>

#### 4.20.4 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd /Gynhaliwyd yn Gymraeg

Cwrs a gynigwyd	Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg?	Cyfanswm wnaeth fynychu
Recriwtio Diogel i Reolwyr (Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld)	Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal.
Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff (Safon 128, (b) rheoli perfformiad)	Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal.
Rheoli'r Broses Ddisgyblu (Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu)	Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal.
Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch)	Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal.

#### 4.20.5 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
21/10/2022	Aelodau newydd o staff – (Dylai pob aelod o staff newydd fynychu'r cyflwyniad corfforaethol o fewn 6 mis o ddechrau gweithio gyda'r Cyngor.)	Caiff y swyddogion anerchiad gan y Prif Weithredwr, gyda rhan o'r anerchiad yn Gymraeg. Mae rhai o'r cyflwyniadau yn ystod y sesiwn hanner diwrnod yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg, gan gynnwys cyflwyniad gan y Gwasanaeth Cyfieithu a'r Gymraeg am weithredu Safonau'r Gymraeg, y Cymorth a'r Gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith <b>(Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)</b>	Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor	36
11/01/2023				39
15/03/2023				43
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNICHU'R CWRS</b>				<b>118</b>

4.20.6 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 118 o aelodau staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni. Dim ond 3 sesiwn a gynhaliwyd eleni gan ein bod wedi ailgychwyn eu cynnal wyneb yn wyneb o fis Hydref 2022 ymlaen.

## 5.0. Cadw Cofnodion

### 5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i'r cyhoedd wneud cwyn drwy wefan y Cyngor neu'n uniongyrchol at Reolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu neu'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar system gwynion y Cyngor.

5.1.2 Ni chafwyd yr un gŵyn yn ystod 2022-2023.

#### 5.1.3 Cwynion oedd wedi'u hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg

5.1.3.1 Mae modd i'r cyhoedd gwyno'n uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg hefyd, a chafodd dwy gŵyn eu hanfon atynt eleni, ond yn y ddau achos, ar ôl cael gwybodaeth bellach gennym ni, nid oedd y Comisiynydd o'r farn ein bod wedi torri unrhyw Safon felly penderfynwyd peidio ag ymchwilio ymhellach i'r mater.

<b>Dyddiad</b>	11/04/2022
<b>Cyfeirnod Comisiynydd y Gymraeg</b>	CS132
<b>Natur y Gŵyn a anfonwyd at Gomisiynydd y Gymraeg</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd modd gwneud cais am fathodyn glas ar wefan y Cyngor yn Gymraeg.
<b>Ymateb y Cyngor</b>	Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am geisiadau am fathodynnau glas. Er bod gwybodaeth am fathodynnau glas ar ein gwefan, drwy wefan Gov.uk yn unig y mae modd gwneud ceisiadau o'r fath ac felly mae ein gwefan yn darparu dolen gyswllt i'r wefan honno. Nid yw eu hafan dudalen nhw, sy'n egluro'r broses, pa wybodaeth sydd ei hangen, y gost ac ati ar gael yn Gymraeg, ond mae modd gwneud cais ar eu gwefan yn Gymraeg. O edrych ar eu gwefan, ymddengys bod angen newid yr iaith i Gymraeg ar ôl cychwyn y cais. Nid yw hyn, yn ein barn ni, yn arfer da nac yn ddigonol, ond, yn anffodus, mae cynnwys Gov.uk tu hwnt i'n rheolaeth.
<b>Canlyniad</b>	Cwyn na chadarnhawyd

<b>Dyddiad</b>	25/11/2022
<b>Cyfeirnod Comisiynydd y Gymraeg</b>	CS1084
<b>Natur y Gŵyn a anfonwyd at Gomisiynydd y Gymraeg</b>	Honiad bod y Cyngor wedi defnyddio 'Google translate' i gyfieithu ei wrthwynebiad i gais cynllunio
<b>Ymateb y Cyngor</b>	Ar ôl adolygu'r cyfieithiad dan sylw, ni welwyd unrhyw wall ynddo felly ni welwyd unrhyw sail i'r honiad ein bod wedi defnyddio Google Translate i gyfieithu'r gwrthwynebiad.  Nid ydym, dan unrhyw amgylchiadau o gwbl, yn defnyddio Google Translate i gyfieithu unrhyw ddogfen. Mae gennym dîm o 26 o gyfieithwyr, felly mae digon o gyfieithwyr ar gael i ymgymryd ag unrhyw waith cyfieithu bob amser.
<b>Canlyniad</b>	Cwyn na chadarnhawyd

## **6.0 Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu**

- 6.1 Bu'n hynod o braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn mynd o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn.
- 6.2 Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein gwersi Cymraeg a'r Cynllun Sgwrsio ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r Cynllun Cefnogi Dysgwyr yn ystod y misoedd nesaf. Mae hi'n wych clywed am eu cynnydd yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle hefyd.
- 6.3 Bu hefyd yn wych gweld gymaint o ddigwyddiadau yn Gymraeg yn cael eu cynnal gan ein gwasanaethau, gyda llawer mwy ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.
- 6.4 Rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'r gwaith gwych a gyflawnwyd eleni a rhoi ambell fenter newydd ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf.